



Grant Cymorth Tai Cynllun Cyflwyno 2022-2025

Adran 1: Cyflwyniad	2
Adran 2: Asesiad o Anghenion	4
Adran 3: Blaenoriaethau Cyflwyno	7
Adran 4: Ymwneud â Rhanddeiliaid	12
Atodiad A: Asesiad o Effaith	15
Atodiad B: Cynllun Gwario	17
Atodiad C: Cynllun Comisiynu	19
Atodiad D: Dyletswyddau Statudol Digartrefedd	21

Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cynhyrchu Cynllun Cyflwyno Grant Cymorth Tai (GCT) tair blynedd 2022-2025 i ategu cyhoeddi Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai pedair blynedd 2022-2026. Mae'r Cynllun yn nodi sut mae Cyngor Dinas Casnewydd yn bwriadu cyflwyno'r blaenoriaethau strategol a nodir yn y Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai, ac unrhyw ofynion cyffredinol parhaus o ran cyflwyno'r Grant Cymorth Tai, gan gynnwys bwriadau gwario a chomisiynu am y flwyddyn i ddod.

Mae pwrpas a chwmpas y Cynllun yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

- Crynodeb o'r Asesiad o Anghenion a wnaed i nodi bylchau mewn darpariaeth neu newidiadau sydd eu hangen i wasanaethau sy'n bodoli eisoes
- Cyflwyno blaenoriaethau i alluogi cyflawni'r blaenoriaethau strategol dros y tair blynedd nesaf
- Crynodeb o ymwneud eang â rhanddeiliaid
- Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb
- Cynllun Gwario GCT 2022-2023
- Cynllun Comisiynu 2022-2025
- Amlinelliad o Ddyletswyddau Statudol Digartrefedd

Seilir y blaenoriaethau cyflwyno a nodir yn y cynllun hwn ar y naw blaenoriaeth strategol sydd yn Strategaeth GCT 2022-2026 ynghyd â gofynion cyffredinol cyson cyflwyno'r Grant Cymorth Tai. Dyma'r blaenoriaethau strategol:

BS1: Symud at agwedd Ail-gartrefu Sydyn

BS2: Cryfhau ac ehangu mynediad at ddarpariaeth cefnogaeth iechyd meddwl i ddiwallu'r cynnydd a nodwyd yn y galw (gan gynnwys diagnosis deuol)

BS3: Cryfhau ac ehangu mynediad at ddarpariaeth cefnogaeth camddefnyddio sylweddau i ddiwallu'r cynnydd a nodwyd yn y galw (gan gynnwys diagnosis deuol)

BS4: Cynyddu a gwella mynediad at y Sector Rhentu Preifat (SRhP)

BS5: Lleihau digartrefedd i bobl iau a chefnogi eu lles

BS6: Lleihau cysgu ar y stryd a chefnogi'r sawl sydd ag anghenion cymhleth

BS7: Cynyddu'r ddarpariaeth atal digartrefedd i gael canlyniadau llwyddiannus

BS8: Codi ymwybyddiaeth o ddigartrefedd a gwasanaethau cysylltiedig, annog hunangymorth a gwytnwch

BS9: Croesawu technolegau newydd a ffyrdd newydd o weithio

Yn ychwanegol, dyma'r gofynion cyffredinol parhaus o ran cyflwyno'r Grant Cymorth Tai:

- Cynnal rhaglen dair blynedd o adolygu a chomisiynu gwasanaethau cefnogi symudol i ategu'r Agwedd Ail-gartrefu Sydyn
- Cwblhau adolygu ac ail-fodelu darpariaeth hosteli a thai gyda chefnogaeth

- Cynnal ymchwil i ofynion tai gyda chefnogaeth i bobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl sy'n symud o wasanaethau iechyd meddwl plant i wasanaethau oedolion.

Yn olaf, mae'r cynllun yn cynnwys adolygu, datblygu a gweithredu nifer o bolisiau, protocolau, cynlluniau gweithredu, grwpiau a phaneli sy'n ategu gwasanaethau digartrefedd statudol a gwasanaethau cefnogi tai.

Fel y nodir yn y Canllaw GCT, mae gofyn i awdurdodau lleol gynnal asesiad anghenion cynhwysfawr bob pedair blynedd, gydag adolygiad ysgafn bob dwy flynedd fel sail o wybodaeth i ddatblygu eu Strategaeth BST. Dadansoddodd yr asesiad o anghenion ystod eang o ddata o wahanol ffynonellau, i bennu lefelau digartrefedd, anghenion tai a darpariaeth cefnogaeth yng Nghasnewydd, tra'r ymgynghorwyd yn eang gyda defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid i ddeall yn well eu pryderon a'u blaenoriaethau. Defnyddiwyd y canfyddiadau i adnabod tueddiadau cyfredol, meysydd twf a bylchau mewn darpariaeth, sydd wedi helpu i lunio'r Datganiad Anghenion.

Gallwch weld dolen i ddogfen y Datganiad Anghenion (a'r asesiad llawn o anghenion cefnogi a gynhaliwyd i'r cynllun Trosi i Ailgartrefu Sydyn (AS), pan fydd wedi ei orffen) yma: [HBS Strategy 2022-2026 Statement of Need \(newport.gov.uk\)](https://www.newport.gov.uk/hbs-strategy-2022-2026-statement-of-need)

2a Y broses o asesu anghenion

Cynhaliwyd yr Asesiad o Anghenion trwy ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau data gan gynnwys ystadegau cenedlaethol, data rhanbarthol a gwybodaeth leol, i roi data meintiol am lefelau'r angen yng Nghasnewydd. Ategwyd hynny wedyn gyda gwybodaeth ansoddol gan ddefnyddwyr gwasanaeth, rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol eraill, oedd â phrofiad uniongyrchol naill ai o ddarparu neu gyrchu'r gwasanaethau hyn yn lleol.

Yr oedd y wybodaeth a gasglwyd trwy'r broses asesu yn fodd o ddarparu dealltwriaeth gynhwysfawr o'r ddarpariaeth bresennol; gan gynnwys lefelau angen a galw, yr heriau cyfredol, bylchau yn y ddarpariaeth a meysydd blaenoriaeth; yn awr ac yn y dyfodol.

Ymysg rhai o'r prif themâu a ddeilliodd o'r Asesiad o Anghenion ac a helpodd i lunio blaenoriaethau strategol y strategaeth hon mae:

- Ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011 cynyddodd y boblogaeth yng Nghasnewydd gan 7.3%; mae hyn yn fwy na dwywaith y cynnydd i Gymru, sef 3.5%.
- Pobl 16 i 64 oed yw'r grŵp oedran uchaf yng Nghasnewydd.
- Mae gan Gasnewydd boblogaeth gwaith o ryw 97,700 o drigolion.
- Mae 74,300 o drigolion o oedran gwaith yng Nghasnewydd yn economaidd weithredol, gan gynnwys tua 3,800 sydd ar hyn o bryd yn ddi-waith. Mae hyn yn cyfateb i 78.5% o'r boblogaeth mewn oedran gwaith sydd naill ai mewn gwaith neu'n chwilio am waith.
- Mae o leiaf un o bob pump o blant ym mhob ALI yng Nghymru yn tyfu i fyny mewn tlodi. Cyfradd tlodi plant Casnewydd yw'r trydydd uchaf yng Nghymru, yn ôl astudiaeth a gynhaliwyd yn 2020 gan y Gynghrair Rhoi Terfyn ar Dlodi Plant.

- Gwelodd Casnewydd gynnydd o 23.5% yn nifer y bobl oedd yn denfyddio eu gwasanaeth banc bwyd rhwng 2019/20 a 2020/21.
- Casnewydd yw'r ail awdurdod unedol mwyaf amrywiol yng Nghymru ar ôl Caerdydd ac y mae nifer y bobl o gefndir heb fod yn wyn yng Nghasnewydd wedi parhau i gynnyddu o 10.1% yng Nghyfrifiad 2011, i amcangyfrif o 13% o'r boblogaeth.
- Casnewydd yw un o bedair ardal wasgaru'r Swyddfa Gartref i geiswyr lloches yng Nghymru sy'n aros am bennu eu statws fel ffoaduriaid. Gwelodd y gyfradd trosiant gynnydd o 90% yn 2012 i ryw 100% yn 2015 oherwydd bod y Swyddfa Gartref wedi cyflymu'r amser i wneud penderfyniadau.
- Mae gan Gasnewydd 95 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI), gydag un ohonynt yn 10fed mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a 23 (24.2%) ymysg y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Mae un o ACEHI Casnewydd yn digwydd yn y 10% o ACEHIau mwyaf difreintiedig am bob parth.
- Mae pump AGEHI arall yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig ar draws o leiaf pum parth.
- Mae 43% o ACEHI Casnewydd yn y 10% mwyaf difreintiedig o ran amgylchedd ffisegol, gan gynnwys nifer o ACEHI sydd ymysg y ACEHI lleiaf difreintiedig yn gyffredinol.
- Mae pocedi o amddifadedd difrifol yng Nghasnewydd, a rhaid targedu adnoddau yn yr ardaloedd hyn i sicrhau mynediad at wasanaethau.

2b Casgliad

Dangosodd y Datganiad Anghenion yn glir fod rhai meysydd galw allweddol a rhai themâu cyffredin, y bydd angen i'r awdurdod lleol eu monitro ac ymdrin â hwy. Hefyd mae rhai meysydd angen newydd yn dod i'r amlwg, a fydd angen monitro pellach ac o bosib ddarparu mwy o gefnogaeth yn y dyfodol.

Crynodeb o themâu a nodwyd:

1. Pobl ifanc/y rhai sy'n gadael gofal – niferoedd/carfannau yn cynyddu.
2. Diffyg llety tymor byr a thymor hir gyda chefnogaeth i bobl ag amrywiaeth o broblemau camddefnyddio sylweddau gan gynnwys tŷ adfer i'r rhai sydd â symbyliad i newid, tŷ prosiect hirdymor i bobl â phroblemau alcohol parhaol a phrosiect arbenigol i bobl ag anghenion cymhleth / diagnosis deuol ac anghenion gofal.
3. Iechyd meddwl yw'r angen uchaf yn gyson am gefnogaeth i wasanaethau GCT ac mae'r nifer yn cynyddu ymysg y rhai sy'n ddigartref.
4. Mae gan ddarpariaeth lloches draddodiadol a rennir rôl o hyd i fenywod sy'n dianc rhag cam-drin domestig, ond mae'n well gan fenywod neu ddynion â phlant neu anghenion mwy cymhleth unedau llety gwasgaredig hunangynhwysol.

Crynodeb o anghenion sy'n dod i'r amlwg:

1. Angen mawr am lety hunangynhaliol fforddiadwy i un person. Amlygwyd hyn trwy gydol elfennau'r asesiad anghenion o'r diffyg llety symud-ymlaen o Lety Dros Dro a thai/hosteli

gyda chefnogaeth i brinder o unedau Tai yn Gyntaf/dan arweiniad Tai, a llety i ffoaduriaid, cyn-droseddwr, y rhai sy'n gadael gofal a phobl sengl ar y Gofrestr Tai.

2. Amlygwyd gwasanaethau cefnogi symudol mwy hyblyg ac ymatebol fel angen ar draws gwasanaethau, e.e. ymyriad cynnar /cefnogaeth mewn argyfwng. Mae hyn yn ategu'r fenter Ailgartrefu Sydyn i atal y posibilrwydd o golli llety, ond fe fydd yn golygu ailfodelu gwasanaethau o'r model cefnogi traddodiadol wedi ei gynllunio.
3. Galw cyson am gynlluniau tai â chefnogaeth i'r rhai sy'n gadael gofal, ffoaduriaid sengl ifanc a phobl ifanc digartref.
4. Iechyd meddwl yw'r angen uchaf yn gyson am gefnogaeth i wasanaethau GCT ac mae'r nifer yn cynyddu ymysg y rhai sy'n ddigartref. Er bod nifer o gynlluniau tai a chefnogaeth yn y Ddinas, mae angen hefyd am lety trosiannol/hanner ffordd i ryddhau unedau cefnogaeth a Llety Dros Dro sy'n bodoli eisoes.
5. Mae cynyddu mynediad at dechnoleg ddigidol a chynyddu cynhwysiant digidol hefyd yn angen allweddol, fel yr amlygwyd yng nghynllun gwaith y Grŵp Cydweithredol Cefnogi Tai Rhanbarthol (GCCTRh).

Mae'r gallu i gwrdd â'r anghenion hyn yn llwyddiannus a chyflwyno atebion priodol yn dal yn her, ac ni all un maes gwasanaeth lwyddo i wneud hyn bob tro. Fodd bynnag, gyda gwell cydweithredu a chyflwyno gwasanaethau mewn ffordd fwy cyfun, bydd y strategaeth yn gweithio i ddiwallu'r galwadau'r presennol a'r dyfodol.

Dengys y tabl isod sut y cyflwynir blaenoriaethau strategol Casnewydd dros y tair blynedd nesaf, a, lle bo hynny'n berthnasol, y dolenni i Gynllun Gwario'r GCT yn Atodiad B y Cynllun hwn. Adolygir y Cynllun Cyflwyno a'r blaenoriaethau yn flynyddol a gallant gael eu newid oherwydd newid mewn amgylchiadau, e.e., deddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

Tabl 1: Blaenoriaethau Cyflwyno 2022-2025

Blaenoriaethau Strategol	Blaenoriaethau Cyflwyno	Amserlen	Gweithredu gan	Cyfeirnod Math o Brosiect Cynllun Gwario
BS1: Symud i fabwysiadu agwedd o Ailgartrefu Sydyn	BC1a: Rhoi Cynllun Trosi i Ailgartrefu Sydyn ar waith	Cyson o Fedi 2022 ymlaen	Tîm GCT/ Uned Anghenion Tai (UAT)	D/G
	BC1b: Adolygu Polisi Dyraniadau CDC	Ebrill 2024	UAT	D/G
	BC1c: Ail-fodelu gwasanaethau cefnogaeth symudol	Ebrill 2025	Tîm GCT	D/G
	BC1d: cwblhau adolygiad o lety mewn hosteli	Ebrill 2023	Tîm GCT/ UAT	D/G
BS2: Cryfhau ac ehangu mynediad at ddarpariaeth cefnogaeth iechyd meddwl i gwrdd â chynnydd yn y galw (gan gynnwys diagnosis dwbl)	BC2a: Datblygu ac agor cynllun tai â chefnogaeth 6 gwely	Rhag 2022	Tîm GCT/ Cartrefi Melin	Cefnogaeth symudol: iechyd meddwl
	BC2b: Cydgrynhoi cyllid i weithiwr cefnogi TCIM	Ebrill 2022	Tîm GCT	Cefnogaeth symudol: iechyd meddwl
	BC2c: Sefydlu fforwm/panel amlasiantaethol a mapio'r ddarpariaeth gwasanaeth	Mehafin 2022	UAT	D/G
	BC2d: Comisiynu ymchwil i drosi pobl ifanc i wasanaethau iechyd meddwl oedolion	Medi 2023	Tîm GCT	D/G

Blaenoriaethau Strategol	Blaenoriaethau Cyflwyno	Amserlen	Gweithredu gan	Cyfeirnod Math o Brosiect Cynllun Gwario
BS3: Cryfhau ac ehangu mynediad at ddarpariaeth cefnogaeth camddefnyddio sylweddau i ddiwallu'r cynnydd yn y galw (gan gynnwys diagnosis dwbl)	BC3a: Cydgrynhai cyllid i Brosiect Estyn Allan Pendant GDAS	Mai 2022	Tîm GCT	Cefnogaeth symudol: camddefnyddio sylweddau /alcohol
	BC3b: Agor Tŷ Adfer 24-awr	Mehfin 2022	Grŵp Pobl	Llety dros dro gyda chefnogaeth: adfer wedi camddefnyddio sylweddau/ alcohol
	BC3c: Sicrhau bod tŷ anghenion cymhleth Gateway yn cael ei weithredu'n llawn	Mai 2022	Tîm GCT/ Cefnogaeth a Gofal Gateway	Llety parhaol: iechyd meddwl
	BC3d: Sefydlu fforwm/panel amlasiantaethol	Mehfin 2022	UAT	D/G
BS4: Cynyddu a gwella mynediad at y Sector Rhentu Preifat (SRhP)	BC4a: Gweithredu Strategaeth SRhP	Ebrill 2023	UAT	D/G
	BC4b: Sicrhau trosiant llyfn cyllid y cynllun Bond i GCT	Ebrill 2024	Tîm GCT	D/G
	BC4c: Adolygu polisi Cronfa Atal Digartrefedd	Ebrill 2023	UAT	D/G
	BC4d: Cwblhau recriwtio Swyddog SRhP	Mai 2022	UAT	Prosiectau eraill atal digartrefedd
BS5: Lleihau digartrefedd i bobl iau a chefnogi eu lles	BC5a: Cydgrynhai cyllid i gynllun 4-gwely symud-ymlaen i bobl ifanc	Ebrill 2022	Tîm GCT	Llety dros dro gyda chefnogaeth: pobl ifanc
	BC5b: Datblygu ac agor cynllun tai 7 uned 24 awr gyda chefnogaeth i bobl ifanc ddigartref	Medi 2022	Pobl Grŵp/ Tîm GCT	Llety dros dro gyda chefnogaeth: pobl ifanc
	BC5c: Sicrhau cyllid i ddau gynllun tai 24 awr gyda chefnogaeth i'r	Ion 2023	Tîm GCT/ Tîm Comisiynu	Llety dros dro gyda chefnogaeth: pobl

Blaenoriaethau Strategol	Blaenoriaethau Cyflwyno	Amserlen	Gweithredu gan	Cyfeirnod Math o Brosiect Cynllun Gwario
	<p>rhai 18 oed a hŷn sy'n derbyn gofal</p> <p>BC5d: Datblygu cefnogaeth symudol i ffoaduriaid ifanc heb neb gyda hwy</p> <p>BC5e: Datblygu strategaeth a llwybr llety a chefnogaeth i'r rhai sy'n derbyn gofal a phobl ifanc ddigartref</p>	<p>Mehafin 2022</p> <p>Rhag 2022</p>	<p>Tîm GCT</p> <p>Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol</p>	<p>ifanc</p> <p>Cefnogaeth symudol: ffoaduriaid</p> <p>D/G</p>
BS6: Lleihau cysgu ar y stryd a chefnogi'r sawl ag anghenion cymhleth	<p>BC6a: Datblygu a gweithredu Polisi a Chynllun Gweithredu Cysgwyr ar y Stryd</p> <p>BC6b: Datblygu fforwm/panel amlasiantaethol</p> <p>BC6c: Sicrhau bod tŷ anghenion cymhleth Gateway yn cael ei weithredu'n llawn</p> <p>BC6d: Datblygu tai gyda chefnogaeth/tŷ diogel cynaliadwy i fenywod mewn perygl o gamdriniaeth rywiol a/neu ariannol</p> <p>BC6e: Cwblhau recriwtio Swyddog Cefnogi Cysgwyr ar y Stryd</p>	<p>Mehafin 2022</p> <p>Mehafin 2022</p> <p>Mai 2022</p> <p>Medi 2022</p> <p>Mai 2022</p>	<p>UAT</p> <p>UAT</p> <p>Tîm GCT/ Cefnogaeth a Gofal Gateway</p> <p>UAT/Tîm GCT/Cyfannol</p> <p>UAT</p>	<p>D/G</p> <p>D/G</p> <p>Llety parhaol: iechyd meddwl</p> <p>Llety dros dro gyda chefnogaeth: VAWDASV</p> <p>Gwasanaethau Cadarnhaol Estyn Allan at Gysgwyr Allan</p>
BS7: Cynyddu atal digartrefedd i gael canlyniadau llwyddiannus	<p>BC7a: Adolygu polisi Cronfa Atal Digartrefedd</p> <p>BC7b: Adolygu gallu staffio i gyflwyno gwasanaeth atal digartrefedd</p> <p>BC7c: Gweithredu protocol Dim Troi Allan i</p>	<p>Ebrill 2023</p> <p>Ebrill 2023</p> <p>Ebrill 2023</p>	<p>UAT</p> <p>UAT</p> <p>UAT/Landlordiaid Cymdeithasol</p>	<p>D/G</p> <p>D/G</p> <p>D/G</p>

Blaenoriaethau Strategol	Blaenoriaethau Cyflwyno	Amserlen	Gweithredu gan	Cyfeirnod Math o Brosiect Cynllun Gwario
	Ddigartrefedd BC7d: Gwerthuso llwybrau atal wedi'i dargedu at garfannau bregus	Mar 2023	Cofrestredig (LCC) Tîm GCT/ UAT	D/G
BS8: Codi ymwybyddiaeth o wasanaethau digartrefedd a rhai cysylltiedig, gan annog hunangymorth a gwytnwch	BC8a: Gweithredu Strategaeth Gyfathrebu i'r cyhoedd, rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth	Awst 2022	UAT/ Tîm Cyfathrebu	D/G
	BC8b: Ail-sefydlu Fforwm Digartrefedd a Chefnogaeth	Mawrth 2023	UAT/Tîm GCT	D/G
	BC8c: Agor canolfan amlasiantaethol tai a chefnogaeth	Gorff. 2022	Grŵp Pobl / UAT/Tîm GCT	Gwasanaethau galw heibio yn ystod y dydd
BS9: Croesawu technolegau newydd a ffyrdd newydd o weithio	BC9a: Adolygu modiwlau digartrefedd a thai cronfa ddata Civica	Medi 2022	UAT/Tîm GCT	D/G
	BC9b: Gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno argymhellion yn adroddiad Arolwg Defnyddwyr Gwasanaeth GCT Gwent 2021	Mawrth 2023	Tîm GCT Gwent	D/G
	BC10a: Cynnal trafodaethau gyda darparwyr cefnogaeth i adolygu a chytuno ar gynllun cyflwyno 2023-2024 i wasanaethau a drosglwyddwyd o HPG i GCT	Ebrill 2023	Tîm GCT/ Darparwyr Cefnogaeth	D/G
	BC10b: Gwerthuso'r gwasanaeth a chytuno ar drefniadau o Ebrill 2024 ymlaen am wasanaethau a drosglwyddwyd o HPG i GCT	Ebrill 2024 (os bydd y gwasanaeth yn parhau dan GCT)	Tîm GCT/ Darparwyr Cefnogaeth	D/G

Blaenoriaethau Strategol	Blaenoriaethau Cyflwyno	Amserlen	Gweithredu gan	Cyfeirnod Math o Brosiect Cynllun Gwario
	BC10c: Dod i drefniadau contract newydd yn ôl y galw i wasanaethau a drosglwyddwyd o HPG i brif raglen GCT	Ebrill 2024	Tîm GCT/ Darparwyr Cefnogaeth	D/G

4 YMWNEUD Â RHANDDEILIAID

Mae ymwneud ac ymgynghori yn rhan annatod o ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau yng Nghasnewydd; gwahoddir defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid yn rheolaidd i gyfrannu at broses cynllunio GCT. Mae ymwneud yn hanfodol i ddatblygu cynllun cyflwyno'r GCT, ac ar yr un pryd mae'n hwyluso gwella gwasanaethau'r GCT yn gyson, ar lefel leol a rhanbarthol.

4a Rhanddeiliaid y cysylltwyd â hwy

Yn y blynyddoedd blaenorol, defnyddiwyd dulliau ymwneud wyneb yn wyneb ac ar-lein, ond oherwydd cyfyngiadau Covid yn 2020 a 2021, ni fu modd cynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb, a mabwysiadwyd dulliau rhithiol yn eu lle. Datblygwyd a chyhoeddwyd arolwg ar-lein ar [wefan Cefnogi Tai Gwent <http://www.gwenthousingsupport.co.uk>](http://www.gwenthousingsupport.co.uk) yn benodol i ddefnyddwyr gwasanaeth, a dosbarthwyd dolen i'r arolwg i holl ddarparwyr cefnogaeth yng Ngwent, ac anogwyd hwy i gefnogi eu defnyddwyr gwasanaeth i'w lenwi. Dosbarthwyd arolwg ar-lein i rhanddeiliaid hefyd yn eang i ddarparwyr cefnogaeth ac asiantaethau oedd yn bartneriaid, gan ofyn iddynt nodi unrhyw fylchau neu flaenoriaethau i'r GCT a gwasanaethau digartrefedd ac i wneud unrhyw argymhellion i wella mwy ar weithio mewn partneriaeth a chyflwyno gwasanaethau.

Ymysg y rhanddeiliaid a wahoddwyd i gymryd rhan yn y broses ymgynghori roedd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau GCT a'u gofawyr/teuluoedd, cydweithwyr lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y gwasanaethau prawf a'r Heddlu, Byrddau Partneriaeth VAWDASV, Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau, Grant Plant a Chymunedau, Darparwyr GCT a landlordiaid

4b Adborth gan rhanddeiliaid

Roedd yr adborth a gafwyd o'r gwahanol brosesau ymwneud yn gadarnhaol, a llwyddwyd i gasglu gwybodaeth gadarn a manwl, oedd yn cadarnhau ac yn egluro'r anghenion a'r pwysau sydd ar y rhai sy'n derbyn cefnogaeth ac sy'n cefnogi eraill ar hyn o bryd, a bydd yn help i lunio'r blaenoriaethau strategol. Ymysg rhai themâu allweddol a ddeilliodd o'r ymwneud yr oedd:

- **Diffyg llety** - mae'r angen am fwy o lety a gwahanol ddewisiadau llety yn cael ei nodi'n rheoliad trwy'r broses ymwneud ac erys yn her hirdymor yng Nghasnewydd
- **Gwell cydweithio a gweithio mewn partneriaeth** – ceir rhai enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth a chydweithio, ond mae angen mwy o waith i sicrhau bod yr holl wasanaethau yn cydweithio'n effeithiol a bod bylchau yn y ddarpariaeth yn cael eu cau
- **Anghenion Cymhleth** – dangosodd ymgynghori fod gan fwy o ddefnyddwyr gwasanaeth yn awr anghneion cymhleth neu luosog na ellir eu hateb gan un maes gwasanaeth yn unig, sydd yn pwysleisio'r angen am agweddau mwy cydweithredol. Amlygwyd effaith

pandemig Covid-19 hefyd yn ystod y broses ymwneud, gyda darpariaeth iechyd meddwl yn faes o gryn bryder, felly hefyd gyrchu gwasanaethau VAWDASV

- **Rhwystrau i ymwneud** –at faterion diffyg cyswllt wyneb yn wyneb, mynediad gwael at wasanaethau iechyd meddwl, a'r angen am weithdrefnau cadarnach i gefnogi absenoldeb gweithwyr cefnogi fel meysydd i ganolbwyntio arnynt. Mae mynediad digidol yn rhwystr arall i ddefnyddwyr gwasanaeth a rhaid ystyried ymdrin â'r mater hwn er mwyn gwneud ymarferion ymgynghori yn y dyfodol yn well
- **Codi Ymwybyddiaeth** – roedd adborth y defnyddwyr gwasanaeth yn tynnu sylw hefyd at y ffaith nad yw gwybodaeth am wasanaethau cefnogi yn wastad yn gyson, ac erys yn flaenoriaeth i dimau GCT ddal i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o Dai a'r rhaglen GCT.
- **Recriwtio, Hyfforddi a Chadw** – nodwyd recriwtio staff trwy gydol y broses ymgynghori fel maes lle mae cryn bwysau i ddarparwyr cefnogaeth, sy'n cael effaith ar gyflwyno gwasanaethau yn effeithiol

4c Gweithio mewn partneriaeth

Yn ogystal ag ymwneud ag ymgynghori'n flynyddol mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill Gwent, mae Casnewydd hefyd yn ymwneud yn lleol yn rheolaidd â defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid fel rhan o adolygiadau gwasanaeth a chyfarfodydd partneriaeth. Arweiniodd hyn at agwedd hirdymor a chydweithredol at ymwneud, ac ymgynghorir yn rheolaidd â phartneriaid allweddol a defnyddwyr gwasanaeth o ystod eang o fudiadau.

Mae timau Cefnogaeth Tai, Anghenion Tai a Strategaeth Tai yn dal i adeiladu ar y berthynas waith ragorol gyda phartneriaid sydd wedi gwella'n arw yn ystod y pandemig, yn enwedig gyda darparwyr cefnogaeth lleol, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl.

Mae nifer o grwpiau strategol ar hyn o bryd yn gweithredu yng Nghasnewydd ac mae aelodau o'r timau Cefnogi Tai, Digartrefedd, Dewisiadau Tai, Strategaeth Tai a/neu Gysgwyr ar y Stryd yn eistedd ar bob un o'r rhain. Maent yn cynnwys y Fforwm Tai Strategol, y Grŵp Cynllunio GCT a'r Grŵp Strategaeth Cysgwyr ar y Stryd dan arweiniad CDC; y Gweithgor Cymdeithasol Fregus a Chymdeithasol Dan Anfantais a'r Grŵp Cyd-ddigwydd; y ddau dan arweiniad BIPAB; y Grŵp Oedolion mewn Perygl o Gamfanteisio Rhywiol dan arweiniad Heddlu Gwent; Grŵp Llwybr Gwent dan arweiniad y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Cenedlaethol; y Grŵp Strategol Rhanbarthol NTS dan arweiniad Cyngor Dinas Caerdydd; y Grŵp Llywio Lles Cymunedol dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae grwpiau gweithredol a gweithgorau yn gweithredu yn y Ddinas ac yn ardal Gwent sydd yn cynnwys cynrychiolaeth o aelodau'r timau Cefnogi Tai, Digartrefedd, Dewisiadau Tai, Strategaeth Tai a/neu Cysgwyr ar y Stryd gan gynnwys: Grŵp Llywio Lloches, Grŵp Llywio Tŷ Cefnogaeth mewn Argyfwng, Grŵp Gweithredol Cysgwyr ar y Stryd, is-grwpiau VAWDASV, grwpiau lleol Mentrau Cydweithredol Lles y Pîl a Ringland, Grŵp Llywio asesu llety Sipsiwn a Theithwyr, Fforwm y Landlordiaid Preifat, Grŵp Gorchwyl a Gorffen hyfforddi am Anhwylderau'r Spectrwm Awtistig a Chamddefnyddio Sylweddau.

Bydd tîm Cefnogi Tai Casnewydd yn adolygu yn rheolaidd lywodraethiant grwpiau cynllunio lleol a sicrhau fod partneriaid allweddol yn cael eu cynrychioli ar bob fforwm perthnasol, a'u bod yn rhan lawn o unrhyw drafodaethau. Bydd partneriaid yn ymwneud ar lefel weithredol a strategol, a thrwy hynny greu cyfleoedd i gydweithredu ar draws ffiniau a sectorau i wneud y mwyaf o adnoddau a galluoedd. Bydd y tîm hefyd yn parhau i hyrwyddo'r rhaglen GCT yn lleol, trwy ymwneud ac ymgynghori cyson, gan ddefnyddio unrhyw sianeli cyfathrebu sydd ar gael.

A ASESIAU O EFFAITH

Sefydlodd Cyngor Dinas Casnewydd Gomisiwn Tegwch, sef corff annibynnol sy'n cynghori'r Cyngor ar y defnydd gorau o adnoddau a phwerau i gael y canlyniadau tecaf i bobl leol. Sefydlodd y Comisiwn tegwch bedwar Egwyddor Tegwch y mae'n rhaid eu hystyried fel rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaiff y Cyngor. Dyma'r egwyddorion: Cydraddoldeb, Blaenoriaeth, Cynhwysiant a Chyfathrebu.

Y broses o asesu effaith

Mae Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb y Cyngor yn cynnwys asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar sail nodweddion gwarchodedig, adran ar randdeiliaid y gall y penderfyniad effeithio arnynt, adran ar ymwneud, asesiad iaith Gymraeg, egwyddorion datblygu cynaliadwy ac asesiad dyletswydd cymdeithasol-economaidd. Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Cynhaliwyd yr asesiad o'r effaith ar flaenoriaethau'r Cynllun Cyflwyno fel cyfanwaith yn hytrach nag fel pob blaenoriaeth cyflwyno ar wahân, ond gan amlygu blaenoriaethau penodol lle bo hynny'n berthnasol.

Canfyddiadau allweddol

Asesiadau effaith a gynhaliwyd:

- Nodi'r holl randdeiliaid y mae'r penderfyniad neu'r cynnig yn effeithio arnynt
- Sut y digwyddodd yr ymwneud
- Barn rhanddeiliaid gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth
- Asesiad o Nodweddion Gwarchodedig
- Asesiad o'r Gymraeg
- Egwyddor datblygu cynaliadwy – asesiad 5 ffordd o weithio
- Asesiad o'r dyletswydd cymdeithasol-economaidd
- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Crynodeb o asesiad cyfunol am y Cynllun Cyflwyno:

- Mae ystod eang o randdeiliaid wedi ei adnabod gan gynnwys gwasanaethau statudol, darparwyr cefnogaeth, rhanddeiliaid ehangach, landlordiaid cymdeithasol a phreifat, defnyddwyr gwasanaeth a all fod yn ddigartref, sydd dan fygythiad digartrefedd neu sydd angen cefnogaeth i gadw eu llety, adrannau'r Cyngor.
- Ymwneud trwy arolygon, holiaduron, cyfarfodydd partneriaeth, fforymau, gweithgorau, grwpiau prosiect, defnyddio technoleg, gwefan GCT Gwent, fforymau cynigion GCT lleol a rhanbarthol, trafodaethau gyda darparwyr cefnogaeth,

- Dadansoddiad o arolygon, holiaduron, cais Gateway, ffurflenni asesu a risg, canfyddiadau ymchwil
- Roedd asesiad o effaith gweithredu'r blaenoriaethau cyflwyno ar gategorïau o bobl â nodweddion gwarchoddedig yn gadarnhaol ar bob cyfrif gan y byddai gwasanaethau ychwanegol, mwy ymatebol, hyblyg ac wedi eu targedu yn gwella bywydau pobl. Hefyd, byddai datblygu cynlluniau tai penodol gyda chefnogaeth i gyflawni amcanion nas atebir, e.e., i'r rhai sy'n gadael gofal a phobl ifanc ddigartref, pobl ag anghenion cymhleth a'r sawl gyda phroblemau iechyd meddwl yn cynnig mwy o ddewis a buasent yn welliant pwysig i'r gwasanaethau sy'n bod eisoes.
- Ystyriwyd hefyd gynigion cyflwyno penodol a'u cymeradwywyd gan aelodau o'r Grŵp Cynllunio GCT amlasiantaethol.
- Yn yr un modd, bydd blaenoriaethau cyflwyno y blaenoriaethau strategol fesul eitem i bobl ddigartref neu'r rhai sydd dan fygythiad o ddigartrefedd yn cael effaith gadarnhaol ar y dinasyddion hyn.
- Aseswyd effaith y blaenoriaethau cyflwyno ar y Gymraeg fel un niwtral/ Cynigir gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg neu ieithoedd eraill a darperir dogfennau yn Gymraeg. Bydd canlyniad y Cyfrifiad diweddar hefyd yn sail o wybodaeth i ddarpariaeth gwasanaeth yn awr ac yn y dyfodol.
- Aseswyd effaith y blaenoriaethau cyflwyno ar ddyletswydd cymdeithasol-economiadd y Cyngor eto fel un cadarnhaol iawn oherwydd bod y rhaglen yn cefnogi llawer o ddinasyddion bregus sydd dan wahanol raddau o anfantais. Roedd tabl oedd yn nodi'r grwpiau o bobl a groes-gyfeiriwyd â meysydd anghydraddoldeb yn rhoi sgôr uchel neu uchel iawn ym mhob blaenoriaeth cyflwyno/datblygu.
- Ystyrir effaith y blaenoriaethau cyflwyno penodol yn gadarnhaol wrth gwblhau'r Chwe Cham at Gadw mewn Cof dan yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, yn enwedig yng nghyswllt gwella gwasanaethau digartrefedd a chefnogaeth wedi ei dargedu i deuluoedd bregus a phobl ifanc digartref.
- Hefyd, fe gaiff y blaenoriaethau cyflwyno yn y cynllun ynghylch datblygu llety penodol a chynlluniau cefnogi i'r rhai sy'n gadael gofal a phobl ifanc ddigartref 16 oed+, yn ogystal ag angen a nodwyd fel un nad oedd yn cael ei ateb am lety penodol i bobl ifanc yn symud o CAMHS i wasanaethau iechyd meddwl oedolion, effaith gadarnhaol ar fywydau plant wrth iddynt gychwyn eu taith i fwy o annibyniaeth a sicrwydd.

B CYNLLUN GWARIO

Tabl 2: Cynllun Gwario Grant Cefnogi Tai Casnewydd 2022-2023

Cyfnod casglu'r Cynllun Gwariant		Cynllun Gwariant y GCT Awdurdodau Lleol 2022/23					
Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol:		Gwent					
Awdurdod Lleol:		Casnewydd					
Dyranriad Blyneddol GCT		£8,577,295.89					
		Unedau Cleientiaid	Cyfanswm gwariant y GCT yn erbyn y math o brosiect	Gwariant fesul Uned	Cyfraniad Awdurdodau Lleol	Rhif Cyfeirnod Blaenoriaeth	Nodiadau (esboniad byr o'r gwariant)
Math o Brosiect	Dadansoddiad o'r Math o Brosiect	Niferoedd	£	£	£	Testun	Testun
Cynlluniau Mynediad y Sector Rhent Preifat	CYFANSWM	0	0.00	0	0.00		
Ailgartrefu Cyflym / Gwasanaethau a Arweinig gan Dai	A Arweinig gan Dai	0	0.00	0	0.00		
	Tŷ yn Gyntaf (wedi'i ddilys	0	0.00	0	0.00		
	Tŷ yn Gyntaf (heb ei ddilys	0	0.00	0	0.00		
	CYFANSWM	0	0.00	0	0.00		
Darpariaeth Llety Mewn Argyfwng	Cyffredinol	0	0.00	0			
	Llety 'sych' penodol	0	0.00	0			
	Llety 'gwlyb' penodol	0	0.00	0			
	CYFANSWM	0	0.00	0	0.00		
Gwasanaethau Allgymorth i Bobl sy'n Cysgu ar y Stryd	CYFANSWM	79	495,457.82	6,272		SP6: DP6e	2 swydd (1 ar waith ar hyn o bryd ac 1 i'w hysbysebu) a 2 gynllun ar wahân sy'n cwmpasu pob uned o'r flwyddyn flaenorol
	Landlord	0	0.00	0			
Gwasanaethau Cyfryngu	Teulu	20	58,051.25	2,903			1 cynllun yn parhau ynghyd â phrosiect cynhwysiant ariannol sydd wedi cynyddu cyfanswm ac unedau
	CYFANSWM	20	58,051.25		0.00		
Gwasanaethau Galw Heibio yn ystod y dydd	CYFANSWM	130	239,187.96	1,840		SP8: DP8c	3 chynllun wedi parhau ac 1 i ddechrau yn ystod 2022/23, swydd newydd wedi'i hychwanegu, cynllun i ddechrau yn ystod 2022/23, yn golygu bod unedau wedi'u lleihau
Gorfodi, Ymchwilio neu Gydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Tai	CYFANSWM	0	16,000.00	0			
Gweithgareddau a gynlluniwyd i hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i gydymffurfio â'r	CYFANSWM	0	4,000.00	0			
Cymorth yn ôl yr Angen	Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	74	226,536.72	3,061			Cynllun wedi parhau ond mae bellach wedi'i leihau gan fod contract gweithiwr wedi dod i ben yn gynt ac mae adolygu unedau wedi golygu gostyngiad
	Anabledd Dysgu	0	0.00	0			
	Anabledd Corfforol	12	35,576.03	2,965			Elfen o'r cynllun cymorth lle bo angen sy'n berthnasol i'r categori hwn (y categori "Cymorth lle bo angen - arall" gynt)
	Iechyd Meddwl	134	435,092.51	3,247		SP2: DP2a, DP2b	Parhad cynllun cymorth lle bo angen, sydd, ar ôl adolygiad, wedi lleihau unedau gyda'r gwaith o gyfuno cynllun sylweddol â chynllun peilot llwyddiannus wedi dechrau yn 2021/22
	Problemau camddefnyddio sylweddau a/neu alcohol	90	255,804.75	2,842		SP3: DP3a	Parhad y cynllun wedi'i rannu rhwng y categori hwn a chyn-droseddwy'r (adolygydd y cynllun hwn a chafwyd gostyngiad o ran unedau ond yna ychwanegwyd swydd ychwanegol a oedd yn golygu cynnydd cyffredinol o ran swm ac unedau) ynghyd â'r Gwasanaeth Allgymorth Rhanbarthol sydd wedi golygu cynnydd o ran swm ac unedau
	Cyn-droseddwy'r	81	274,892.35	3,394			Parhau â 2 gynllun gan gynnwys y cynllun a nodir uchod. Mae adolygiad o'r cynllun a rannwyd gyda'r categori uchod wedi golygu gostyngiad o ran unedau a chyllid cyffredinol.
	Pobl Ifanc	128	433,038.60	3,383			Parhad o 1 cynllun sydd wedi'i gynyddu i gynnwys cymorth lle bo angen ychwanegol tra bod 2 gynllun sefydlog yn dod i rym yn ystod 2022/23. Cynnydd yn yr elfen cymorth lle bo angen oherwydd oedi yn y dyddiad dechrau ar gyfer cynllun sefydlog.
	Ffoaduriaid	45	103,730.48	2,305		SP5: DP5d	Elfen o gynllun cymorth lle bo angen mwy wedi'i leihau o ganlyniad i adolygiad
	Pobl Hŷn	240	352,479.47	1,469			3 chynllun sylweddol yn parhau
	Sipsiwn a Theithwyr	8	24,000.00	3,000			1 cynllun sylweddol yn parhau Cynllun wedi'i leihau gan fod ALL rhanbarthol ac ALL arall bellach yn gysylltiedig
	Cyffredinol	728	1,631,184.76	2,241			Parhau â 4 cynllun cymorth lle bo angen gyda'r cyllid sy'n weddill ar gyfer cynlluniau sydd â rolau cymorth penodol e.e. Gweithwyr Cymorth Cynhwysiant Ariannol, Gweithwyr Asesu a Gweithwyr Cymorth Symud Ymlaen. Mae un cynllun bellach wedi'i ddiwygio er mwyn darparu cyllid ar gyfer gweithiwr ychwanegol yn y categori camddefnyddio sylweddau, mae'r unedau ar gyfer 2 gynllun wedi'u hadolygu sy'n golygu gostyngiad cyffredinol ac mae swydd Gweithiwr Cymorth Symud Ymlaen wedi dod yn wag ac wedi golygu ychwanegiad at gostau cyflog
	Arall	153	431,746.72	2,822			Parhau â 4 cynllun. Mae un o'r cynlluniau hyn bellach wedi'i leihau er mwyn darparu cyllid ar gyfer gweithiwr ychwanegol o fewn y categori camddefnyddio sylweddau
		CYFANSWM	1,693	4,204,082.39		0.00	

		Unedau Cleientiaid	Cyfanswm gwariant y GCT yn erbyn y math o brosiect	Gwariant fesul Uned	Cyfraniad Awdurdodau Lleol	Rhif Cyfeirnod Blaenoriaeth	Nodiadau (esboniad byr o'r gwariant)
Math o Brosiect	Dadansoddiad o'r Math o Brosiect	Niferoedd	£	£	£	Testun	Testun
Llety Dros Dro	Anabledd Dysgu	0	0.00	0			
	Anabledd Corfforol	0	0.00	0			
	Iechyd Meddwl	0	0.00	0			
	Problemau camdefnyddio	10	112,479.34	11,248			1 cynllun yn parhau
	Problemau camdefnyddio	5	145,969.76	29,194		SP3: DP3b	1 cynllun wedi dechrau yn 2022
	Cyn-droeddwy	0	0.00	0			
	Pobl Ifanc	35	417,615.76	11,932		SP5: DP5a, DP5b, DP5c	Parhau â 3 cynllun. Mae un cynllun newydd bellach wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r oedi cyn dechrau ac rydym wedi dileu cynllun llety â chymorth
	Pobl Hŷn	0	0.00	0			
	Ffoaduriaid	0	0.00	0			
	Trais yn erbyn Menywod	5	39,693.75	7,939		SP6: DP6d	Parhau â'r cynllun peilot llwyddiannus wedi dechrau yn 2022/23
	Cyffredinol	54	454,548.26	8,418			2 gynllun yn parhau
	Cyffredinol - anghenion d	0	0.00	0			
	Arall	37	460,338.47	12,442			2 gynllun yn parhau
	CYFANSWM	146	1,630,645.34		0.00		
Llety Cymorth Parhaol	Pobl Hŷn	0	0.00	0			
	Anabledd Dysgu	136	230,332.86	1,694			3 chynllun yn parhau
	Iechyd Meddwl	83	753,832.93	9,082		SP3: DP3c SP6: DP6c	7 cynllun yn y categori "arall" yn flaenorol ac 1 cynllun newydd wedi dechrau 2021/22
	Arall	20	228,812.30	11,441			2 gynllun yn parhau
	CYFANSWM	239	1,212,978.09		0.00		
Gwasanaethau Gofal Ychwanegol	CYFANSWM	0	0.00	0			
Gwasanaethau Larwm	Trais yn erbyn Menywod	0	0.00	0			
	Arall	0	0.00	0			
	CYFANSWM	0	0.00	0.00			
Llochesi	Dynion	0	0.00	0			
	Merched	26	444,608.35	17,100			Parhau â 3 chynllun y mae 1 ohonynt wedi'i ail-fodelu yn 2021/22. Cynnydd gan fod y cyllid ar gyfer un cynllun yn anghywir o fewn y cynllun gwariant dangosol
	Arall	0	0.00	0			
	CYFANSWM	26	444,608.35		0.00		
Offer Gwella Diogelwch	CYFANSWM	0	0.00	0			
Swyddi anstatudol a ariennir gan y GCT	CYFANSWM	6	166,112.08	0			6 swydd yn parhau Cynnydd bach ar gyfer costau ffonau symudol
Prosiectau Atal Digartrefedd Eraill	CYFANSWM	24	64,693.01	2,696		SP4: DP4d	2 swydd wedi dechrau 2021/22
Arall	Gwariant heb ei neilltuo	0	0.00	0			
	Cyffredinol Arall	1	41,479.60	0			Parhau â'r swydd Swyddog Prosiect ynghyd â chostau cronfa ddata Gateway ynghyd â gwasanaethau dehongli.
	CYFANSWM	1	41,479.60		0.00		
	CYFANSWM	2,402	8,577,295.89		0.00		

Dengys y tabl isod fwriadau comisiynu Cyngor Dinas Casnewydd dros y tair blynedd nesaf.

Tabl 3: Cynllun Comisiynu

Blwyddyn 1: 2022/2023			
Amserlen	Lot Cefnogaeth Symudol	Gweithgaredd	Gwasanaeth / Contract Newydd i Gychwyn
Ebrill 2022 tan Mawrth 2023		Ailfodelu interim ac adolygu yn y tymor hir (parthed ailgartrefu sydyn) darpariaeth hosteli i'r digartref	d/g – prosiect sy'n digwydd trwy gydol y flwyddyn
Ebrill 2022 tan Mawrth 2023		Paratoi am a chwblhau comisiynu / tendro am ymchwil i bobl ifanc sy'n symud o wasanaethau Plant a CAMHS i Wasanaethau Oedolion /CMHT	01/04/2023
Ebrill 2022 tan Medi 2022	1.1	Paratoi am a chwblhau comisiynu / tendr am Gysgu ar y Stryd/digartref/dull o fyw ar y stryd	01/04/2023
Gorffennaf 2022 tan Rhagfyr 2022	1.2	Paratoi am a chwblhau comisiynu / tendr am Generig (1)	01/04/2023
Gorffennaf 2022 tan Rhagfyr 2022		Paratoi am a chwblhau comisiwn / tendr am wasanaeth llety gyda chefnogaeth i'r Rhai sy'n Gadael Gofal yn unol â'r agenda ailgartrefu sydyn	Amcangyfrifir 01/01/2023
Hydref 2022 tan Mawrth 2023	1.3	Paratoi am a chwblhau comisiwn / tendr am Fudwyr a Ffoaduriaid	01/04/2023
Ionawr 2023 tan Mawrth 2023		Cynnal trafodaethau gyda darparwyr cefnogaeth i adolygu a chytuno ar gynllun cyflwyno 2023-2024 am wasanaethau a drosglwyddir o HPG i GCT	01/04/2023

Blwyddyn 2: 2023/2024			
Amserlen	Lot Cefnogaeth Symudol	Gweithgaredd	Gwasanaeth / Contract Newydd i Gychwyn
Ebrill 2023 tan Medi 2023	2.1 a 2.2	Paratoi am a chwblhau comisiynu / tendr am Generig (2) a (3)	01/04/2024
Gorffennaf 2023 tan Rhagfyr 2023	2.3	Paratoi am a chwblhau comisiwn / tendr am Bobl Ifanc a Theuluoedd	01/04/2024
Gorffennaf 2023 tan Rhagfyr 2023		Gwerthuso'r gwasanaeth a chytuno ar drefniadau o Ebrill 2024 ymlaen i'r gwasanaethau a drosglwyddir o HPG i GCT	01/04/2024 (os bydd y gwasanaeth yn parhau dan GCT)

Blwyddyn 3: 2024/2025			
Amserlen	Lot Cefnogaeth Symudol	Gweithgaredd	Gwasanaeth / Contract Newydd i Gychwyn
Ebrill 2024		Dod i drefniadau contract newydd yn ôl y galw am wasanaethau a drosglwyddir o HPG i brif raglen GCT	01/04/2024
Ebrill 2024 tan Medi 2024	3.1	Paratoi am a chwblhau comisiwn / tendr am DA/VAWDASV	01/04/2025
Ar neu wedi Medi 2024	3.2	Paratoi am a chwblhau comisiwn / tendr am Generig (4)	Ar neu ar ôl 01/04/2025
Ar neu wedi Medi 2024	3.3	Paratoi am a chwblhau comisiwn / tendr am Droseddu / Camddefnyddio Sylweddau	Ar neu ar ôl 01/04/2025
Ar neu wedi Medi 2024	3.4	Paratoi am a chwblhau comisiwn / tendr am Iechyd Meddwl	Ar neu ar ôl 01/04/2025

D DYLETSWYDDAU STATUDOL DIGARTREFEDD

Mae'r dyletswyddau statudol Digartrefedd yn cael eu cyflawni gan yr Uned Anghenion Tai, sydd â phedwar tîm:

- Atebion Tai, sy'n cyflwyno'r gwasanaeth statudol rheng-flaen dan Ddeddf Tai Cymru 2014. Mae wyth o Swyddogion Atebion Tai CLIA yn rhoi cefnogaeth rheng-flaen ac yn cynnal y beichiau achos statudol. Cafodd dau Swyddog Atebion Tai CLIA Dros Dro eu recriwtio ar gyfer 2022/23, ynghyd â Chymhorthydd Atebion Tai CLIA dros dro.
- Dewisiadau tai sy'n rheoli'r rhestr aros am dai fforddiadwy yng Nghasnewydd ac yn hwyluso hysbysebu eiddo trwy'r gofrestr gyffredin o dai i bartneriaid LCC.
- Mae Llety Dros Dro yn rheoli llety a ddarperir yn ôl y dyletswyddau dyledus dan Ddeddf Tai Cymru 2014 ac yn y tîm mae pedwar Swyddog Llety CLIA a dau Gymhorthydd Llety CLIA. Cafodd dau Swyddog Llety CLIA dros dro, un Cymhorthydd Llety CLIA dros dro a thri Chymhorthydd Gweinyddol CLIA dros dro eu recriwtio ar gyfer 2022/23.
- Yn y tîm CCLIDD (Cymorth Cefnogi Llety Dros Dro), sy'n darparu ymyriadau mewn argyfwng, cefnogaeth cysylltiedig â thai a help i symud ymlaen, mae dau Swyddog CLIA (wedi eu cyllido gan y GCT), un Swyddog CLIA SRhP (wedi ei gyllido gan y GCT) a gweithiwr cefnogi tai Oedolion Bregus a gyllidir gan y GCT.
- Mae'r gweithrediadau yn cael eu rheoli gan dri Arweinydd Tîm CLIA a dau Reolwr CLIA, ac mae'r gwasanaeth yn cael ei oruchwylio gan y Rheolwr Anghenion Tai.

Defnyddir arian y GCT hefyd i dalu am Gydlynnydd Cysgu ar y Stryd a Swyddog Cefnogi Cysgwyr ar y Stryd, sydd yn cydlynu gwasanaethau estyn allan, yn casglu data am gysgu ar y stryd ac anghenion cefnogaeth. Trwy weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau statudol eraill a darparwyr y trydydd sector, mae modd cynnig cefnogaeth wedi ei dargedu at y garfan o'r rhai hynny sy'n cysgu allan.

Mae arian y Grant Cymorth Tai yn galluogi darparu cefnogaeth ar faterion tai i'r aelwydydd hynny y mae dyletswydd statudol drostynt trwy swyddi unswydd. Mae cefnogaeth mewn argyfwng ar gael i'r sawl a all fod angen llety dros dro, a hefyd y rhai sy'n symud ymlaen i lety parhaol. Bydd y tîm yn gallu cyfeirio at wasanaethau arbenigol os oes angen cefnogaeth yn y tymor hwy. Mae swyddi y telir amdanynt gan y GCT yn hwyluso symud ymlaen i lety parhaol yn y sectorau cymdeithasol a rhentu preifat.

Mae'r uned Anghenion Tai hefyd yn gweithio'n agos gyda darparwyr gwasanaethau a gomisiynwyd i gyflwyno gwasanaeth rheng-flaen sy'n cefnogi anghneion carfannau penodol, megis y rhai sy'n profi VAWDASV, pobl sy'n gadael y carchar, cysgwyr ar y stryd a phobl ifanc, trwy gydleoli swyddfeydd a rheoli achosion ar y cyd. Mae perthynas waith agos gyda darparwyr eraill a gomsiynwyd yn sicrhau y rhoddir cyngor cywir sydd wedi ei dargedu ac sy'n amserol i'r defnyddwyr gwasanaeth.

Ceir agwedd strategol at atal a lliniaru digartrefedd trwy fod â pherthynas waith agos â'r Uned Anghenion Tai, Tîm Cefnogi'r Grant Cymorth Tai, a'r strategaeth Tai. Adolygwyd llywodraethiant y timau oll er mwyn sicrhau bod strategaethau a chynlluniau gwaith wedi eu hasio ynghyd, sefydlwyd fforymau i ymgorffori amcanion LCC ac i oruchwylio ffrydiau cyllido.

Mae'r Cynllun Cyflwyno yn amlinellu sut y bydd prosiectau a gwasanaethau yn cael eu hail-fodelu yn dilyn cynlluniau peilot a sefydlwyd yn ystod Cyfnod 2 ac yn y gobaith o gyrraedd yr amcanion strategol sydd yn y Rhaglen Cefnogi Tai. Caiff prosiectau cyfalaf a ddefnyddiodd gyllid Cyfnod 2 eu cyflwyno, ynghyd â gwasanaethau cefnogi gyda llety lle gwelwyd bylchau yn y ddarpariaeth. Caiff gwasanaethau cefnogaeth symudol eu hail-fodelu er mwyn goflau bod cefnogaeth wedi ei dargedu yn cael ei ddarparu i atal digartrefedd lle bo modd.

Caiff y gallu staffio fydd ei angen i gyflwyno gwasanaethau statudol a'r amcanion yn y cynllun cyflwyno ei werthuso, a thelir amdano trwy gyllid craidd, y Grant Cymorth Tai a'r Grant Atal Digartrefedd. Bydd ailgartrefu sydyn yn parhau yn ddyhead creiddiol ochr yn ochr ag atal mwy o ddigartrefedd.

Trwy wasanaethau rheng-flaen a darpariaeth statudol, bydd modd adnabod anghenion cefnogi yn fuan, gydag asesiad trylwyr wedyn yn cael ei gwblhau er mwyn sicrhau bod aelwydydd yn derbyn cefnogaeth symudol wedi ei dargedu ac sy'n ymwybodol o drawma, yna byddant yn cael eu cyfeirio ymlaen yn fuan at gefnogaeth statudol arall neu a gomsynir. Bydd nifer o ddewisiadau llety ar gael, yn dibynnu ar yr angen, a bydd defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth i liniaru digartrefedd neu sicrhau bod digartrefedd yn fyr, yn brin ac nad yw'n cael ei ailadrodd lle bynnag y bo modd.

Caiff gweithio mewn partneriaeth ei gryfhau trwy weithio amlasiantaethol, rhannu data a chreu atebolrwydd, gyda'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolbwynt o hyd. Cymerir agwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn adnabod llwybrau at gefnogaeth a'r ymyriadau fydd eu hangen, er mwyn cymryd camau statudol i atal neu liniaru digartrefedd trwy lety statudol a'r hyn a gomisiynwyd, ac ateb anghenion cefnogi.

Mae'r Cynllun Cyflwyno yn asio gyda'r amcanion strategol yn y Rhaglen Cefnogi Tai, Cynlluniau Ailgartrefu Sydyn ac amcanion y Strategaeth Tai er mwyn cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Caiff deilliannau eu hadolygu'n rheolaidd yn lleol, a chaiff agweddau rhanbarthol hefyd eu hystyried lle mae modd gweithio'n fwy effeithiol a chyflawni amcanion a rennir.